

Crynodeb gweithredol

Mae cyfradd y disgownt ar gyfer anafiadau personol a ragnodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor a'i chyfatebwyr yn yr Alban o dan adran 1 o Ddeddf Iawndal 1996 yn darparu ffordd cymharol hawdd a syml o osgoi ymgyfreitha cymhleth a chostus ynglŷn â beth y dylai cyfradd y disgownt fod mewn achosion unigol. Mae'r gyfradd, sy'n gorfod cael ei hystyried gan y llys wrth asesu maint dyfarniad cyfandaliad o iawndal ar gyfer colled ariannol yn y dyfodol mewn achos o anaf personol, wedi cael ei lleihau yn ddiweddar o 2.5% i minws 0.75% gan yr Arglwydd Ganghellor, yn unol â'r gyfraith bresennol. Cyhoeddwyd y newid hwn ar 27 Chwefror a daeth i rym ar 20 Mawrth. Disgwylir iddo gynyddu maint y dyfarniadau iawndal yn sylweddol ar gyfer colledion yn y dyfodol. Gosododd Gweinidogion yr Alban Orchymyn ar 27 Mawrth i newid cyfradd y disgownt yn yr Alban i minws 0.75%. Daeth y newid i rym ar 28 Mawrth.

Arweiniodd y newid yn y gyfradd at alwadau o'r newydd i ailystyried y ffordd y mae'r gyfradd wedi cael ei phennu. Codwyd pryderon bod y dull presennol, sy'n deillio o'r egwyddorion a sefydlwyd yn yr achos *Wells v Wells* yn Nhŷ'r Arglwyddi yn 1998, yn ddiffygiol. Y brif feirniadaeth yw fod y dull hwn yn y bôn yn talu gormod o iawndal i lawer o hawlwyd¹, yn groes i'r amcan cyffredinol o ddyfarnu iawndal, sy'n cwrdd yn llawn â'r costau a'r colledion a achoswyd i'r hawlwyd gan yr anaf, dim mwy na dim llai.

Mae'r ymgyngoriad yn rhan o adolygiad y fframwaith o dan yr hwn y pennwyd y gyfradd a gyhoeddwyd hefyd gan yr Arglwydd Ganghellor ar 27 Chwefror. Mae'r papur yn ystyried y posibilrwydd ar gyfer sut, pa bryd a chan bwy y dylid pennu cyfradd y disgownt mewn perthynas â hawliadau anaf personol yng Nghymru a Lloegr ac yn yr Alban, ond nid yw'n gwneud cynigion penodol. Mae Gweinidogion yr Alban yn ymgyngori ar y cyd ynglŷn â'r adolygiad hwn o'r fframwaith.

Y materion craidd a archwiliwyd yn y papur ymgyngori yw:

- **Pa egwyddorion ddylai benderfynu sut y pennir y gyfradd?** A yw'r egwyddorion presennol yn parhau yn addas ar gyfer y diben? Beth ddylai'r egwyddorion fod? Pa enillion buddsoddiad a ddylid eu hystyried wrth bennu'r gyfradd? A ddylai'r posibilrwydd o orchymyn taliadau cyfnodol effeithio ar y penderfyniad ynglŷn â'r buddsoddiadau perthnasol?
- **Pa mor aml y dylai'r gyfradd gael ei phennu?** A ddylai hyn gael ei adael yn agored, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, neu a fyddai patrwm sefydlog o adolygu yn well? A fyddai system flynyddol, bob tair blynedd neu bob pum mlynedd yn well? A ddylai adolygiadau gael eu hachosi gan raddfeydd o newid mewn enillion buddsoddi?
- **Pwy ddylai bennu cyfradd y disgownt?** A ddylai'r grym i wneud hynny aros gyda'r Arglwydd Ganghellor a'i chyfatebwyr yn yr Alban neu a fyddai'n well i rywun arall, panel o arbenigwyr i bennu'r gyfradd, o bosibl?

Yn ogystal, mae'r papur yn ystyried a yw gorchmynion taliadau cyfnodol yn cael eu defnyddio yn ddigonol, sydd, o bersbectif yr hawlwyd, yn cael gwared â llawer, os nad y cyfan, o'r risg sy'n gysylltiedig â sicrhau bod y golled ariannol a ragwelwyd yn y dyfodol yn cael ei gwrdd yn llawn ac ar amser. Tra bod y fframwaith cyfreithiol sy'n gysylltiedig â gorchmynion taliadau cyfnodol yn

¹ Yn yr Alban, dylid darllen "hawlwyd" fel "pursuer" a "diffynnydd" fel "defender"

wahanol yn yr Alban, y mae gan Weinidogion yr Alban ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau ynglŷn â hyn.

Nod y papur yw:

- canfod tystiolaeth ynglŷn â sut y mae hawlwyr mewn gwirionedd yn buddsoddi dyfarniadau iawndal ar gyfer colled ariannol yn y dyfodol a sut y maen nhw'n cael eu cyngori i fuddsoddi;
- gwahodd safbwyntiau ynglŷn â beth ddylid ei wneud (os rhywbeth) er mwyn gwneud y system ar gyfer pennu cyfradd y disgownt anaf personol yn well ac yn decach; a
- canfod tystiolaeth ar y defnydd o orchmynion taliadau cyfnodol a gwahodd safbwyntiau y dylid annog eu defnyddio yn lle dyfarniadau cyfandaliad o iawndal ar gyfer colled ariannol yn y dyfodol, ac os felly sut.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer adolygiadau'r ddwy Lywodraeth wrth bennu'r gyfradd.